# CYNGOR SIR YNYS MÔN

| | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | Pwyllgor Safonau |
| **DYDDIAD:** | 8 Mehefin 2011 |
| **TEITL YR ADRODDIAD:** | Adrodd yn ôl a rhoi gwybodaeth a chanlyniadau mewn perthynas â materion yn Rhaglen Waith y Pwyllgor Safonau |
| **ADRODDIAD GAN:** | Cyfreithiwr i'r Swyddog Monitro |
| **PWRPAS YR ADRODDIAD:** | Adrodd yn ôl i'r Pwyllgor |

## 1. PROTOCOL RHODDION A LLETYGARWCH

1.1 Yn dilyn trafodaethau blaenorol ar Roddion a Lletygarwch yn y Pwyllgor Safonau ar 22/7/2010 a 14/9/2010 ac yn y Cyngor llawn ar 9 Rhagfyr 2010 pryd cadarnhaodd y Cyngor "y bydd uchafswm y trothwy ar dderbyn rhoddion yn parhau ar £20", paratowyd Protocol drafft i'r Pwyllgor ei drafod ar 9 Mawrth 2011. Gwnaed rhai newidiadau gan y Pwyllgor ac mae'r rheini wedi cael eu hymgorffori yn y Protocol. Cyflwynwyd adroddiad i'r Bwrdd Comisiynwyr (sydd wedi cymryd drosodd swyddogaethau'r Pwyllgor Gwaith) ac fe'i trafodwyd ganddynt ar 26 Ebrill 2011 a chan y Cyngor Sir ar 12 Mai 2011.

1.2 Yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011, penderfynodd y Bwrdd Comisiynwyr fel a ganlyn:-

*"Argymell i'r Cyngor a Gweinidogion Cymru, y dylid cymeradwyo'r Protocol yn Atodiad 2 a'r Ffurflen Ddatganiad yn Atodiad 3 a chymeradwyo eu hychwanegu at Gyfansoddiad y Cyngor yn rhan 5.9 ac awdurdodi swyddogion i wneud unrhyw newidiadau canlyniadol i'r Cyfansoddiad.*

*Gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro ysgrifennu at Gymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn gofyn iddynt lunio polisi rhoddion a lletygarwch safonol ar gyfer Cymru."*

1.3 Penderfynodd y Cyngor gymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr a'u cyflwyno i Weinidogion Cymru.

1.4 Mae copi o'r Protocol a'r ffurflen o Ddatganiad ynghlwm fel **Papur 1** a **Phapur 2** (111717 a 115293 Cymraeg a 13260/111708 a 114107 Saesneg).

**Papur 1 a Papur 2**

1.5 Gweinidogion Cymru fydd yn awr yn gyfrifol am gymeradwyo newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a gofynnir yn awr am eu cymeradwyaeth. Nid oes angen i'r Pwyllgor Safonau gymryd unrhyw gamau pellach.

## 2. INDEMNIADAU

2.1 Ar 12/5/2011, cyflwynwyd adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol / Swyddog Monitro i'r Cyngor Sir yn datgan bod Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 yn caniatáu i'r Cyngor gynnig indemniad i Aelodau a Swyddogion mewn perthynas â rhai materion penodol fel y manylwyd arnynt yn yr adroddiad.

Nid oedd yr adroddiad ond yn delio gyda'r egwyddor a ddylai'r Cyngor fabwysiadu'r pwerau i indemnio dan y Gorchymyn. Os byddai'r pwerau a ddarparwyd gan y Gorchymyn yn cael eu mabwysiadu, yna byddai unrhyw gais gan Swyddog neu Aelod unigol yn y dyfodol am indemniad yn cael sylw ar wahân ac ar y pryd. Nid oedd y Gorchymyn yn rhoi pŵer i indemnio gweithredoedd y Comisiynwyr.

Byddai rhoi indemniadau o bosibl yn gwarantu talu symiau mawr mewn ffioedd cyfreithiol a chostau eraill. Fodd bynnag, efallai bod y tebygrwydd y byddai hynny'n digwydd yn isel iawn. Ffordd briodol o reoli risg o'r fath oedd trefnu yswiriant allanol y gellid galw arno yn ôl yr angen. Roedd y Cyfarwyddwr Cyllid Corfforaethol yn cynghori na ddylai unrhyw indemniad a roddir gan y Cyngor fod yn fwy na'r hyn y gellid ei yswirio'n allanol am gost resymol.

Y mater mwyaf arwyddocaol nad oedd eisoes wedi ei gynnwys yn y polisi yswiriant cyfredol ond a awdurdodwyd dan y Gorchymyn oedd y costau gafodd aelod wrth amddiffyn Achos Llys a ddygwyd yn ei erbyn o/hi yn dilyn cwyn ei fod o/hi wedi torri'r Côd Ymddygiad i Aelodau.

Os oedd y Cyngor yn mabwysiadu'r egwyddor o ganiatáu indemniadau a awdurdodwyd gan y Gorchymyn, bwriedid cyflwyno adroddiad pellach yn y man.

2.2 Penderfynodd y Cyngor Sir *"gytuno mewn egwyddor rŵan bod y Cyngor yn dymuno mabwysiadu'r pŵer i roi indemniadau yn unol â'r ddarpariaeth yn y gorchymyn a bod adroddiad pellach ar y mater yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor yn y man."*

2.3 Mae adroddiad pellach yn cael ei baratoi i'w ystyried gan y Cyngor. Os bydd indemniad yn cael ei ganiatáu i Gynghorydd ynghylch Camau Rhan III (materion yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad) gall y mater fod o bwys i'r Pwyllgor Safonau. Mae copi o'r Offeryn Statudol ynghlwm fel **Papur 3** a dygir sylw yn arbennig at baragraff 8(4) a pharagraff 8(5). Os dygir Camau Rhan III yn erbyn Cynghorydd ac os canfyddir bod methiant i gydymffurfio gyda'r Côd Ymddygiad neu os gwneir cyfaddefiad a'r aelod yn cael cerydd neu os nad oes unrhyw gamau disgyblu yn cael eu cymryd yn ei erbyn o neu hi, gofynnir i'r Pwyllgor Safonau benderfynu a fydd angen i'r aelod ad-dalu i'r Cyngor neu'r yswiriwr unrhyw arian gafodd ei wario.

**Papur 3**

2.4 Dim angen i'r Pwyllgor Safonau gymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd.

## 3. RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO

### 3A SIARAD CYHOEDDUS MEWN PWYLLGOR CYNLLUNIO

3A.1 Yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011, penderfynodd y Bwrdd Comisiynwyr i dderbyn cynnwys yr adroddiad ac argymell i'r Cyngor Sir ac i Weinidogion Cymru eu bod:-

*"Newid y protocol ar Siarad Cyhoeddus er mwyn adlewyrchu'r newidiadau sy'n angenrheidiol ar ôl y cyfnod prawf 12 mis.*

*Mabwysiadu'r protocol yn barhaol fel rhan o Reolau Gweithdrefn Materion Cynllunio fel y cânt eu nodi yn y Cyfansoddiad."*

3A.2 Penderfynodd y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod ar 12/5/2011, gymeradwyo argymhellion y Comisiynwyr i Weinidogion Cymru.

3A.3 Rhaid i Weinidogion Cymru gymeradwyo newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a gofynnir yn awr am y gymeradwyaeth honno. Nid oes angen i'r Pwyllgor Safonau gymryd unrhyw gamau pellach.

### 3B ADOLYGU'R RHEOLAU GWEITHDREFN MATERION CYNLLUNIO

3B.1 Yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011, penderfynodd y Bwrdd Comisiynwyr argymell i'r Cyngor Sir ac i Weinidogion Cymru y dylid diwygio Cyfansoddiad y Cyngor am gyfnod prawf o 12 mis ar gyfer:-

- *"Newidiadau i egluro'r rheolau ynghylch ceisiadau gan Aelodau/Swyddogion a'u perthnasau a'u ffrindiau agos y dylid eu cyflwyno i'r Pwyllgor Cynllunio am benderfyniad;*

- *Newidiadau i'r rheolau - na ddylai Aelodau ar y Pwyllgor Cynllunio gael gwneud nac eilio argymhelliad na phleidleisio ar gais yn eu wardiau, a*

- *Newidiadau i'r rheolau - na chaiff aelodau o'r Pwyllgor Cynllunio, ac eithrio pan fônt yn siarad fel Cynghorydd Lleol, gymryd rhan mewn cais yn y Pwyllgor os nad ydynt wedi bod yn bresennol pan gafodd y cais hwnnw ei ystyried yn sylweddol gan y Pwyllgor yn flaenorol. Mae hyn yn cynnwys unrhyw ymweliad safle swyddogol sydd wedi digwydd.*

- *Nodi bod yr holl newidiadau i'r Rheolau i weithredu'r uchod wedi'u cynnwys yn yr atodlen i'r adroddiad a bod unrhyw fân newidiadau eraill i'r Rheolau wedi'u nodi yn yr atodiad i'r adroddiad."*

3B.2 Penderfynodd y Cyngor Sir, yn ei gyfarfod ar 12/5/2011, y dylid cyfeirio'r mater yn ôl i'r Comisiynwyr gydag argymhelliad y dylid gofyn iddynt ailystyried y mater gan gadw mewn cof y newidiadau sydd eisoes wedi cael eu gwneud i'r Pwyllgor Cynllunio.

3B.3 Nid oes angen i'r Pwyllgor Safonau cymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd.

## 4. PROTOCOL GWYBODAETH I AELODAU

4.1 Rhoes y Pwyllgor Safonau sylw i'r mater hwn yn ei gyfarfod ar 2/2/2011.

4.2 Yn ei gyfarfod ar 23 Chwefror 2011, penderfynodd y Pwyllgor Gwaith argymell fel a ganlyn i'r Cyngor Sir:-

*"Bod y Cyngor yn cymeradwyo'r Protocol drafft ynghylch Gwybodaeth i Aelodau a diwygio rhannau 5.3.6 a 5.3.8 y Cyfansoddiad yn unol â hynny."*

4.3 Penderfynodd y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth 2011 i gadarnhau argymhelliad uchod y Pwyllgor Gwaith.

4.4 Dim ond Gweinidogion Cymru fedr gymeradwyo newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a gofynnir am y gymeradwyaeth honno yn awr. Nid oes rhaid i'r Pwyllgor Safonau gymryd unrhyw gamau pellach.

4.5 Mae copi o'r Protocol ynghlwm fel **Papur 4.**

**Papur 4.**

## 5. HAWLIAU MYNEDIAD A MATERION DIOGELU DATA – HAWLIAU AELODAU I FYND I ARDALOEDD CEFN SWYDDFA

5.1 Cafodd adroddiad drafft gan y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol a oedd gerbron y Pwyllgor Safonau ar 9 Mawrth 2011 ei drafod gan y Comisiynwyr ar 3 Mai 2011 a'i ddiwygio ganddynt. Mae'r drafft cyfredol gyda'r Comisiynydd perthnasol a bwriedir ei anfon allan ar gyfer ymgynghori gydag aelodau yn ystod yr wythnos a ddaw i ben 3 Mehefin 2011. Bydd y Comisiynwyr yn ystyried yr adroddiad drafft yn ei gyfarfod ar 11 Gorffennaf.

5.2 Nid oes angen i'r Pwyllgor Safonau gymryd unrhyw gamau pellach ar hyn o bryd.

## 6. POLISI SWYDDFA COFNODIADAU TROSEDDOL YR AWDURDOD LLEOL

6.1 Rhoes y Pwyllgor Safonau sylw i'r mater hwn yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2011 ac fe'i trafodwyd gan y Cyngor ar 8 Mawrth pryd y penderfynodd y Cyngor ohirio ystyried gwahodd y Comisiynydd Gwybodaeth i annerch y Cyngor yn ei gyfarfod nesaf ym mis Mai.

6.2 Yn ei gyfarfod ar 26 Ebrill 2011mabwysiadodd y Bwrdd Comisiynwyr y polisi

(a) mewn perthynas â staff, contractwyr annibynnol a gwirfoddolwyr ar ran y Cyngor; a

(b) argymhellwyd i'r Cyngor Sir ei fod yn *"mabwysiadu'r Polisi fel yr oedd yn berthnasol i aelodau etholedig a chyfetholedig fel y manylir ar hynny yn yr adroddiad."*

6.3 Yn ei gyfarfod ar 12/5/2011, penderfynodd y Cyngor Sir gymeradwyo'r Polisi fel y mae'n ymwneud ag Aelodau Etholedig a Chyfetholedig.

6.4 Mae trefniadau mewn llaw yn awr i drafod y Polisi gyda'r Undebau ac yna, bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu ar gyfer y rheolwyr perthnasol. Mae Cyfarwyddwr Corfforaethol eisoes wedi cael gwybod ac mae llythyr wedi cael ei anfon hefyd at y Cynghorwyr. Nid oes angen i'r Pwyllgor Safonau ymateb ymhellach.

## 7. HYFFORDDIANT I GYNGHORAU CYMUNED A THREF

7.1 Yn dilyn trafodaeth ar y mater hwn gan y Pwyllgor Safonau, trefnwyd sesiwn hyfforddi gan Swyddogion yr Uned Gyfreithiol / y Swyddog Monitro a'r Adeiniau AD gyda chymorth Unllais Cymru ar 10 Mai 2011. Ynghlwm mae rhestr o'r sawl a fynychodd yr hyfforddiant a chrynodeb o'r taflenni atborth fel yr ymddangosant ym **Mhapur 5.** Cydlynwyd y gwaith hwn gan Bethan Allen o'r Adain AD.

**Papur 5.**

7.2 Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried gwneud penderfyniad ynghylch a oes angen trefnu hyfforddiant pellach. Dylai'r Pwyllgor fod yn ymwybodol mai'r unig ddyletswydd sydd ganddo mewn perthynas ag hyfforddi Cynghorau Tref a Chymuned yw hyfforddiant yn ymwneud â'r Côd Ymddygiad.

7.3 O ganlyniad i'r sesiwn hyfforddi, ymddengys bod gwahanol arferion yn bodoli mewn perthynas â chofnodi datganiadau o ddiddordeb ac yn arbennig, datganiadau o ddiddordeb mewn cyfarfodydd. Bydd y Pwyllgor Safonau'n cofio y cymeradwywyd ffurflen newydd gan y Pwyllgor ar gyfer ei ddefnyddio yng nghyfarfodydd y Cyngor Sir. Atgynhyrchir y ffurflen honno i sylw'r Pwyllgor ym **Mhapur 6**. Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried argymell defnyddio'r ffurflen hon wedi ei ddiwygio'n briodol ar gyfer pob Cyngor Cymuned a Chyngor Tref ar Ynys Môn. Deellir mai'r unig gofnod o ddatganiad o ddiddordeb gan Gynghorydd mewn rhai Cynghorau yw nodyn a gymerir gan y Clerc. Byddai defnyddio ffurflen yn sicrhau mai cyfrifoldeb y Cynghorydd unigol fyddai llenwi'r ffurflen a'i rhoddi i'w Clerc ar gyfer ei chofrestru.

**Papur 6.**

7.4 Gofynnir i'r Pwyllgor:-

a) Wneud penderfyniad ynghylch hyfforddiant pellach.
b) Argymell defnyddio ffurflen "Datganiad o Ddiddordeb" gan yr holl Gynghorau Cymuned a Thref ar Ynys Môn.

## 8. PROTOCOLAU RHEOLAETH WLEIDYDDOL

8.1 Rhoes y Pwyllgor Safonau sylw i'r mater hwn yn ei gyfarfod ar 2 Chwefror 2011. Cyflwynwyd adroddiad i'r Pwyllgor gwaith yn ei gyfarfod ar 15 Chwefror 2011 a phenderfynwyd argymell i'r Cyngor Sir:-

*Y dylai Cadeirydd y Cyngor Sir fod â rhan yn 2.1.6 ac/neu 4.1.6 y protocolau;*

*Mabwysiadu'r protocolau fel y cawsant eu drafftio yn Atodiad A a'u hymgorffori yng Nghyfansoddiad y Cyngor yn 5.8;*

*Awdurdodi Swyddogion i wneud yr holl newidiadau angenrheidiol a chanlyniadol i Gyfansoddiad y Cyngor gan gynnwys ymgorffori'r protocolau yn 5.8. "*

8.2 Penderfynodd y Cyngor Sir yn ei gyfarfod ar 8 Mawrth i gyflwyno'r argymhellion uchod i'r Pwyllgor Gwaith.

8.3 Gweinidogion Cymru sydd yn gyfrifol am gymeradwyo newidiadau i Gyfansoddiad y Cyngor a gofynnir am y gymeradwyaeth honno'n awr. Nid oes rhaid i'r Pwyllgor Safonau gymryd unrhyw gamau pellach.

## 5.9 RHODDION A LLETYGARWCH

### PROTOCOL AR GYFER AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG

**Mabwysiadwyd y polisi hwn gan y Cyngor i roi arweiniad i Aelodau ynghylch derbyn a chofrestru rhoddion a lletygarwch.**

### 5.9.1 Rhagarweiniad

5.9.1(a) Mae derbyn rhoddion a lletygarwch gan Aelodau yn fwy na mater gweinyddol. Mae'n adlewyrchu'n uniongyrchol ar y canfyddiad am Aelodau ac am y Cyngor yn gweithredu er budd y cyhoedd yn hytrach nag er mantais bersonol ffrindiau neu deulu neu'r fantais bersonol y gall aelodau ei chael yn rhinwedd eu swyddi.

5.9.1(b) Mae'r gyfraith ar dderbyn rhoddion a lletygarwch wedi ei nodi yng Nghôd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau ac yn y Deddfau Rhwystro Llygredd. Ychwanegir at y gofynion hyn gan y trefniadau y mae'r Awdurdod hwn wedi eu mabwysiadu, i ddarparu set glir o reolau i ddiogelu Aelodau a'r Cyngor fel ei gilydd. Gall derbyn rhodd neu letygarwch mewn modd sy'n tynnu'n groes i'r Côd, neu fethiant i ddatgan derbyn rhodd neu letygarwch, arwain at anghymwyso unigolyn i ddal swydd gyhoeddus am gyfnod o hyd at pum mlynedd. Gall derbyn rhodd neu letygarwch mewn modd llwgr olygu dirwy drom neu hyd at saith mlynedd mewn carchar.

### 5.9.2 Y Protocol hwn

5.9.2(a) Mae'r Protocol hwn yn ymwneud ag unrhyw gynnig, rhodd, ffafr neu letygarwch a wneir neu a roddir i chi yn rhinwedd eich swydd fel aelod. Nid yw'n fwriad i'r Protocol fod yn berthnasol i'r perthnasau cymdeithasol cyffredin y mae pobl yn eu mwynhau gyda ffrindiau, ar yr amod nad yw'r ffrind yn gwneud cais i'r Cyngor am rywbeth, yn ceisio gwneud busnes gyda'r Cyngor neu yn rhan o berthynas fusnes barhaus gyda'r Cyngor.

5.9.2(b) Mae'r Protocol hwn yn nodi'r egwyddorion y dylech eu dilyn pa bryd bynnag yr ydych yn gorfod penderfynu a fyddai'n briodol derbyn unrhyw rodd neu letygarwch, a threfn ar gyfer datgan unrhyw rodd neu letygarwch yr ydych yn ei dderbyn ac ar gyfer rhoi cyfrif i'r Cyngor am unrhyw rodd. Nid yw'r Protocol hwn yn ymwneud â derbyn unrhyw gyfleusterau neu letygarwch gall y Cyngor eu rhoi i chi. Mae'r drefn a nodir isod yn adlewyrchu'r hyn a fu'n arferiad bob amser yn y Cyngor hwn.

### 5.9.3 Egwyddorion Cyffredinol

Wrth benderfynu a yw'n briodol derbyn unrhyw rodd neu letygarwch dylech ddilyn yr egwyddorion isod:

5.9.3(a) Peidiwch byth â derbyn rhodd neu letygarwch fel anogaeth neu wobr am unrhyw beth yr ydych chi yn ei wneud fel Aelod neu fel ffordd o gael dylanwad.

Fel Aelod, rhaid i chi weithredu er budd y cyhoedd ac ni ddylai cynnig, y posibilrwydd o gynnig, anogaeth, gwobr neu ddiffyg anogaeth eich dylanwadu yn y modd yr ydych yn cyflawni eich dyletswyddau..

Mae Deddf Cyrff Cyhoeddus (Troseddau Llwgr) 1889 yn dweud, os ydych yn derbyn rhodd, benthyciad, ffi, gwobr neu fantais o gwbl fel anogaeth neu wobr ar gyfer gwneud rhywbeth neu beidio â gwneud rhywbeth mewn perthynas ag unrhyw fater neu drafodyn y mae gan y Cyngor ran ynddo, rydych yn cyflawni trosedd y gellir eich dedfrydu i hyd at saith mlynedd o garchar amdani.

Ymhellach, mae Côd Ymddygiad y Cyngor ar gyfer Aelodau yn dweud bod rhaid i chi weithredu er budd y cyhoedd gan wasanaethu'r Cyngor a'r gymuned gyfan, yn hytrach na gweithredu er budd unrhyw unigolyn penodol neu garfan o'r gymuned, a bod rhoi unrhyw fantais neu anfantais amhriodol i unrhyw berson, gan gynnwys chi eich hun, yn torri'r Côd.

5.9.3(b) Peidiwch byth â derbyn rhodd neu letygarwch os gallai gwneud hynny fod yn agored i'w gamddehongli.

Mae gallu'r Cyngor i lywodraethu yn dibynnu ar yr enw sydd ganddo o ran gweithredu'n deg ac er budd y cyhoedd. Ni ddylid derbyn rhoddion neu letygarwch a gynigir os yw'r amgylchiadau yn debygol o gael eu camddehongli gan aelod rhesymol o'r cyhoedd. Rhaid i chi felly ystyried a ellid dehongli derbyn y rhodd neu'r lletygarwch fel arwydd eich bod chi neu'r Cyngor yn ffafrio unrhyw berson, cwmni neu garfan benodol o'r gymuned neu fel eich bod yn cael eich rhoi dan rwymedigaeth amhriodol i unrhyw berson neu sefydliad. Os oes unrhyw bosibilrwydd y gellid ei ddehongli yn y fath fodd, rhaid i chi un ai wrthod y rhodd neu letygarwch neu gymryd camau priodol i sicrhau na all camddealltwriaeth o'r fath godi.

Mae rhai achlysuron yn arbennig o sensitif ac mae'n rhaid sicrhau na fydd cyfle yn codi o gwbl i gamddeall yn y fath modd. Mae'r rhain yn cynnwys:

(i) achlysuron lle mae'r Cyngor yn mynd trwy broses pwrcasu cystadleuol, mewn perthynas ag unrhyw arwydd o ffafriaeth i dendrwr penodol;

(ii) penderfynu ar geisiadau cynllunio neu bolisi cynllunio, mewn perthynas ag unrhyw berson neu sefydliad a fyddai ar eu hennill neu ar eu colled o'r penderfyniad.

(iii) penderfyniadau cyllido, pan fo'r Cyngor yn penderfynu ar geisiadau grant gan unrhyw berson neu sefydliad.

5.9.3(c) Peidiwch byth â derbyn rhodd neu letygarwch sy'n eich rhoi dan rwymedigaeth amhriodol.

Rhaid cydnabod bod rhai sefydliadau masnachol ac unigolion preifat yn gweld rhoddion a lletygarwch fel modd o brynu dylanwad. Os ydych yn derbyn rhodd neu letygarwch yn amhriodol, mae'n bosib y byddant yn ceisio defnyddio'r ffaith hwn i'ch perswadio i benderfynu ar fater o'u plaid. Yn yr un modd, os yw eraill yn nodi eich bod wedi bod yn fodlon derbyn rhodd

neu letygarwch yn amhriodol, fe allant deimlo na fyddwch mwyach yn gallu sicrhau ystyriaeth ddiduedd gan y Cyngor.

5.9.3(ch) Peidiwch byth â gofyn am rodd neu letygarwch.

Ni ddylech fyth ofyn neu wahodd cynnig o rodd neu letygarwch mewn perthynas â'ch swydd fel aelod ac eithrio lle mae'r Protocol hwn yn caniatáu i chi dderbyn y fath rodd neu letygarwch. Dylech hefyd fod yn ofalus i osgoi rhoi unrhyw arwydd y gallech fod yn agored i unrhyw gynnig amhriodol o'r fath.

5.9.3(d) Ni ddylech ond dderbyn lletygarwch os oes budd cymesur i'r Cyngor.

Yr unig reswm priodol ar gyfer derbyn lletygarwch yw lle mae budd cymesur i'r Cyngor ac/neu'r cyhoedd y mae'n ei gynrychioli.

Gall derbyn lletygarwch roi mantais gyfreithlon i'r Cyngor megis cyfle i fwrw ymlaen yn brydlon gyda busnes y Cyngor trwy ginio/swper gwaith ac ati neu i ganfasio a hyrwyddo budd y Cyngor a'i ardal mewn cyfarfod. Oni bai bod y budd i'r Cyngor yn glir ac yn gymesur gyda gwerth y lletygarwch, rhaid rhagdybio bod y lletygarwch yn unig ar gyfer eich budd personol chi.

Fel sydd wedi ei nodi uchod, mae Côd y Cyngor yn dweud na chaniateir i chi roi yn amhriodol unrhyw fantais i neb, gan gynnwys chi eich hun. Byddai derbyn lletygarwch fel Aelod, er eich budd neu eich mantais eich hun, yn hytrach nag er budd y Cyngor neu'r cyhoedd, yn torri'r Côd.

**5.9.4 Adrodd**

**A Rhoddion**

5.9.4(a)(i) Os ydych yn derbyn rhodd yr ydych yn amcangyfrif bod ei gwerth ar y farchnad neu'r gost o'i darparu yn £20 neu fwy mae'n rhaid i chi, cyn gynted ag y bo modd, a beth bynnag cyn pen 28 diwrnod i dderbyn y rhodd, wneud datganiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro. Bydd datganiad o'r fath yn cael ei gofnodi mewn cofrestr a fydd yn nodi dyddiad y datganiad, y dyddiad y derbyniodd yr Aelod y rhodd, enw'r Aelod, natur y rhodd a.y.y.b. Mae ffurflen i bwrpas cofnodi ar gyfer Aelodau ynghlwm wrth y Protocol hwn. Bydd y gofrestr hon ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus yn ystod tymor y Cyngor.

5.9.4(a)(ii) Hyd yn oed os yw gwerth y rhodd yn llai na £20, os ydych yn bryderus y gellid camddehongli ei derbyn ac yn arbennig os yw'n dod o du contractwr neu dendrwr, gellwch wneud datganiad gwirfoddol yn yr un modd i sicrhau nad oes dim wedi ei guddio neu'n ddichellgar o ran y rhodd.

5.9.4(a)(iii) I osgoi amheuaeth nid oes rhaid datgan cynnig o rodd yr ydych wedi ei gwrthod.

**B. Lletygarwch**

5.9.4(b)(i) Os ydych yn derbyn lletygarwch yr ydych yn amcangyfrif bod ei werth ar y farchnad neu'r gost o'i ddarparu yn £20 neu fwy mae'n rhaid i chi, cyn gynted ag y bo modd, a beth bynnag cyn pen 28 diwrnod i dderbyn y lletygarwch, wneud datganiad ysgrifenedig i'r Swyddog Monitro. Bydd datganiad o'r fath yn cael ei gofnodi mewn cofrestr a fydd yn nodi dyddiad y datganiad, y dyddiad y derbyniodd yr Aelod y lletygarwch, enw'r Aelod, natur y lletygarwch a.y.y.b. Mae ffurflen i bwrpas cofnodi ar gyfer Aelodau ynghlwm wrth y Protocol hwn. Bydd y gofrestr hon ar gael i'w harchwilio'n gyhoeddus yn ystod tymor y Cyngor.

5.9.4(b)(ii) Hyd yn oed os yw gwerth y lletygarwch yn llai na £20, os ydych yn bryderus y gellid camddehongli ei dderbyn ac yn arbennig os yw'n dod o du contractwr neu dendrwr, gellwch wneud datganiad gwirfoddol yn yr un modd i sicrhau nad oes dim wedi ei guddio neu'n ddichellgar o ran y lletygarwch.

5.9.4(b)(iii) I osgoi amheuaeth nid oes rhaid datgan cynnig o letygarwch yr ydych wedi ei wrthod.

### 5.9.5 Rhoddion i'r Cyngor

Gall rhoddion i'r Cyngor fod ar ffurf darparu tir, nwyddau neu wasanaethau, un ai i gadw neu i brofi gyda golwg ar brynu yn y dyfodol, neu gynnig i wneud gwaith neu noddi swyddogaeth a drefnir neu a gefnogir gan y Cyngor. Ni ddylech ofyn am unrhyw rodd o'r fath ar ran y Cyngor ac eithrio lle mae'r Cyngor wedi nodi'n ffurfiol y cyfle i barti allanol gymryd rhan a sut y bydd hynny'n digwydd, er enghraifft mewn perthynas â noddi perfformiadau cerddorol a theatraidd cyhoeddus a chyfraniadau datblygwyr dan Gytundebau Adran 106. Os ydych yn cael cynnig o'r fath ar ran y Cyngor, rhaid i chi roi gwybod i'r Swyddog Monitro amdano ar unwaith. Bydd y Swyddog Monitro wedyn yn ysgrifennu at y person neu'r sefydliad sy'n gwneud y cynnig i gofnodi eich bod un ai yn derbyn neu'n gwrthod y rhodd, yn cofnodi'r rhodd i bwrpas archwilio a sicrhau bod y rhodd wedi ei weithredu'n gywir er budd y Cyngor Os oes gennych unrhyw bryderon am gymhellion y person neu'r sefydliad sy'n gwneud y cynnig, neu ynghylch a fyddai'n briodol i'r Cyngor dderbyn y rhodd, dylech hysbysu'r Swyddog Monitro ar unwaith.

### 5.9.6 Diddordebau sy'n rhagfarnu

Rhaid i chi fod yn ymwybodol y gall derbyn rhodd neu letygarwch fod yn ddiddordeb sy'n rhagfarnu ac y byddai'r rheolau yn y Côd mewn perthynas â diddordebau sy'n rhagfarnu yn berthnasol. Hynny yw, efallai y byddai'n rhaid i chi ddatgan y diddordeb, gadael yr ystafell pan fyddai'r mater yn cael ei drafod a pheidio â chymryd rhan mewn unrhyw ffordd yn y drafodaeth/proses gwneud penderfyniad.

### 5.9.7 Diffiniadau

5.9.7(a) Mae "rhodd neu letygarwch" yn cynnwys:

(i) nwyddau neu wasanaethau am ddim;

(ii) y cyfle i gael nwyddau neu wasanaethau am bris is neu ar delerau sy'n fwy manteisiol na'r rheini sydd ar gael i'r cyhoedd;

(iii) y cyfle i gael unrhyw nwyddau neu wasanaethau nad ydynt ar gael i'r cyhoedd.

(iv) cynnig o fwyd, diod, llety neu adloniant, neu'r cyfle i fynychu unrhyw ddigwyddiad diwylliannol, chwaraeon neu adloniadol.

5.9.7(b) Mae cyfeiriadau at "werth" neu "gost" unrhyw rodd neu letygarwch yn gyfeiriadau i'r uchaf o:

(i) eich amcangyfrif o gost darparu'r rhodd neu'r ystyriaeth i'r person neu'r sefydliad.

(ii) y pris ar y farchnad agored y byddai'n rhaid i'r aelod o'r cyhoedd ei dalu am y rhodd neu'r lletygarwch, pe bai ar gael yn fasnachol i'r cyhoedd, llai unrhyw swm arian ar ffurf unrhyw gyfraniad y byddai'n rhaid i chi ei wneud tuag at y pris hwnnw i'r person neu'r sefydliad sy'n darparu neu'n cynnig y rhodd neu'r lletygarwch.

5.9.7(c) Dehonglir rhodd o £20 neu letygarwch o £20 fel cyfanswm o £20 y flwyddyn gan yr un unigolyn neu sefydliad.

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

## DATGANIAD GAN AELODAU AC AELODAU CYFETHOLEDIG EU BOD WEDI DERBYN RHODD AC/NEU LETYGARWCH

Darllenwch y Canllawiau isod a nodir yn y Protocol ar Roddion a Lletygarwch yn 5.9 yng Nghyfansoddiad y Cyngor os gwelwch yn dda ac yna cwblhewch y manylion isod:

| | |
|---|---|
| Enw'r Aelod/Aelod Cyfetholedig | |
| Enw'r Rhoddwr/Darparwr | |
| Disgrifiad o'r rhodd neu'r lletygarwch | |
| Gwerth/amcangyfrif o werth y rhodd/lletygarwch | |
| Pryd a lle derbyniwyd y rhodd/lletygarwch | |
| Oedd unrhyw amgylchiadau arbennig sy'n cyfiawnhau derbyn y rhodd neu'r lletygarwch hwn? | |
| A oes gennych unrhyw gyswllt gyda'r person neu'r sefydliad sy'n rhoi'r rhodd neu'r lletygarwch un ai yn eich swyddogaeth fel cynghorydd neu fel arall? Rhowch fanylion os gwelwch yn dda | |
| Manylion am unrhyw gontract y mae gan y rhoddwr/darparwr diddordeb i'w sicrhau | |
| Sylwadau ychwanegol (os o gwbl) | |
| Llofnod | |
| Dyddiad | |

A T O D I A D

O F F E R Y N N A U   S T A T U D O L

**2006 Rhif 249 (Cy.37)**

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006

*Wedi'i wneud*

*7 Chwefror 2006*

*Yn dod i rym*

*8 Chwefror 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 101 a 105 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000([1]) ac ar ôl ymgynghori â chynrychiolwyr awdurdodau perthnasol, â chynrychiolwyr cyflogeion awdurdodau perthnasol, ac ag unrhyw bersonau eraill y mae'n barnu eu bod yn briodol drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

**Enwi, cychwyn a chymhwyso**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Awdurdodau Lleol (Indemniadau ar gyfer Aelodau a Swyddogion) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 8 Chwefror 2006.

(2) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i awdurdodau perthnasol yng Nghymru.

**Dehongli**

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

mae “aelod” (“*member*”), mewn perthynas ag awdurdod perthnasol, yn cynnwys—

(a)
aelod o unrhyw bwyllgor neu is-bwyllgor o'r awdurdod perthnasol; neu

(b)
person sydd yn aelod o unrhyw gyd-bwyllgor neu is-bwllgor, ac sy'n cynrychioli'r awdurdod perthnasol ar y cyd-bwyllgor neu'r is-bwyllgor hwnnw;

ystyr “awdurdod perthnasol” (“*relevant authority*”) yw cyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol, cyngor cymuned, awdurdod tân a gyfansoddwyd drwy gynllun cyfuno o dan Ddeddf Gwasanaethau Tân 1947(**1**), awdurdod tân ac achub a gyfansoddwyd drwy gynllun o dan adran 2 o Ddeddf y Gwasanaethau Tân ac Achub 2004(**2**) neu gynllun y mae adran 4 o'r Ddeddf honno yn gymwys iddi, ac awdurdod Parc Cenedlaethol a sefydlwyd o dan adran 63 o Ddeddf yr Amgylchedd 1995(**3**);

ystyr “camau Rhan III” (“*Part III proceedings*”) yw unrhyw ymchwiliad, adroddiad, cyfeiriad, beirniadaeth neu unrhyw gamau eraill arall yn unol â Rhan III o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr “Cod Ymddygiad” (“*Code of Conduct*”) yw Cod Ymddygiad a fabwysiadwyd am y tro gan awdurdod perthnasol yn unol ag adran 51 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000;

ystyr “mesurau disgyblu” (“*disciplinary measures*”) yw—

(a)
atal, neu atal yn rhannol; neu

(b)
anghymhwyso;

ystyr “Pwyllgor Safonau” (“*Standards Committee*”) yw Pwyllgor Safonau, neu is-bwyllgor ohono, a sefydlwyd gan awdurdod perthnasol yn unol ag adran 53, adran 54A, neu adran 56 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000; ac

mae “sicrhau” (“*secure*”), mewn perthynas ag unrhyw indemniad a ddarperir drwy gyfrwng yswiriant yn cynnwys trefnu'r yswiriant hwnnw a thalu amdano a dehonglir ymdraddion perthynol yn unol â hynny.

**Indemniadau**

**3.** Caiff awdurdod perthnasol ddarparu indemniadau, yn yr achosion a grybwyllir yn erthygl 5, i unrhyw un oi aelodau neu ei swyddogion.

**Yswiriant**

**4.** Yn lle bod awdurdod perthnasol yn darparu indemniad o dan erthygl 3, neu yn ychwanegol at ei ddarparu, caiff awdurdod perthnasol sicrhau, yn yr achosion a

grybwyllir yn erthygl 5, ddarparu indemniad drwy sicrhau yswiriant ar gyfer unrhyw un o'i aelodau neu ei swyddogion.

**Achosion lle caniateir i indemniad neu yswiriant gael ei ddarparu**

**5.** Yn ddarostyngedig i erthygl 6, caniateir i indemniad gael ei ddarparu mewn perthynas ag unrhyw weithred, neu fethiant i weithredu, gan yr aelod neu'r swyddog o dan sylw, a hwnnw'n indemniad sydd—

(a)wedi'i awdurdodi gan yr awdurdod perthnasol; neu

(b)yn ffurfio rhan, neu'n deillio, o unrhyw bwerau a roddwyd, neu ddyletswyddau a osodwyd, ar yr aelod neu'r swyddog hwnnw, o ganlyniad i unrhyw swyddogaeth sy'n cael ei harfer gan yr aelod neu'r swyddog hwnnw (p'un a yw'r aelod neu'r swyddog hwnnw, wrth arfer y swyddogaeth honno, yn gwneud hynny yn rhinwedd ei swydd fel aelod neu swyddog i'r awdurdod perthnasol ai peidio)—

(i)ar gais yr awdurdod perthnasol neu gyda'i gymeradwyaeth, neu

(ii)at ddibenion yr awdurdod perthnasol.

**Cyfyngiadau ar indemniadau**

**6.**—(1) Ni chaniateir i unrhyw indemniad gael ei ddarparu o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas ag unrhyw weithred, neu fethiant i weithredu, gan unrhyw aelod neu swyddog, sydd—

(a)yn dramgwydd troseddol; neu

(b)yn ganlyniad twyll, neu ddrygioni bwriadol arall neu fyrbwylltra ar ran yr aelod neu'r swyddog hwnnw.

(2) Er gwaethaf paragraff 1(a), caniateir darparu indemniad mewn perthynas ag—

(a)yn ddarostyngedig i erthygl 8, amddiffyniad unrhyw gamau troseddol a ddygir yn erbyn swyddog neu aelod;

(b)unrhyw atebolrwydd sifil sy'n codi o ganlyniad o unrhyw weithred neu fethiant â gweithredu sydd hefyd yn dramgwydd troseddol; ac

(c)yn ddarostynedig i erthygl 8, amddiffyniad unrhyw gamau Rhan III yn erbyn aelod.

(3) Ni chaniateir darparu unrhyw indemniad o dan y Gorchymyn hwn mewn perthynas ag unrhyw hawliad a wneir gan yr aelod neu'r swyddog sydd wedi'i indemnio mewn perthynas â'r difenwad honedig o'r aelod neu'r swyddog ond caniateir ei ddarparu mewn

perthynas â'r amddiffyniad gan yr aelod neu'r swyddog hwnnw o unrhyw honiad o ddifenwi a wnaed yn erbyn yr aelod neu'r swyddog hwnnw.

**Materion sy'n mynd y tu hwnt i bwerau'r awdurdod perthnasol**

**7.**—(1) Er gwaethaf unrhyw gyfyngiad ar bwerau awdurdod perthnasol sy'n rhoi indemniad, caniateir i awdurdod perthnasol ddarparu indemniad i'r graddau yr oedd yr aelod neu'r swyddog o dan sylw—

(a)yn credu bod y weithred, neu'r methiant i weithredu, o dan sylw o fewn pŵer yr awdurdod perthnasol, neu

(b)pan fo'r weithred neu'r methiant â gweithredu yn cynnwys dyroddi neu awdurdodi unrhyw ddogfen sy'n cynnwys unrhyw ddatganiad ynghylch pwerau'r awdurdod perthnasol, neu unrhyw ddatganiad bod camau penodol wedi cael eu cymryd neu fod gofynion wedi cael eu bodloni, yn credu bod cynnwys y datganiad hwnnw yn wir,

a'i bod yn rhesymol i'r aelod neu'r swyddog hwnnw gredu hynny ar yr adeg y gweithredodd yr aelod neu'r swyddog hwnnw neu y methodd â gweithredu.

(2) Caniateir darparu indemniad mewn perthynas â gweithred neu methiant i weithredu y ceir wedyn ei fod y tu hwnt i bwerau'r aelod neu'r swyddog dan sylw, ond dim ond i'r graddau yr oedd yr aelod neu'r swyddog yn credu'n rhesymol bod y weithred neu'r methiant â gweithredu dan sylw o fewn pwerau'r aelod hwnnw neu'r swyddog hwnnw ar yr adeg y gweithredodd yr aelod hwnnw neu'r swyddog hwnnw neu y methodd â gweithredu.

**Telerau indemniad neu yswiriant**

**8.**—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2), (3), (4) a (5) isod caiff telerau unrhyw indemniad a roddir (gan gynnwys unrhyw yswiriant a sicrheir) o dan y Gorchymyn hwn fod yn delerau y caiff yr awdurdod perthnasol gytuno arnynt.

(2) Mae paragraffau (3), (4) a (5) yn gymwys pan fo unrhyw indemniad a roddir i unrhyw aelod neu swyddog (gan gynnwys unrhyw yswiriant a sicrheir ar gyfer yr aelod hwnnw neu'r swyddog hwnnw) yn effeithiol mewn perthynas ag amddiffyniad—

(a)unrhyw gamau troseddol; neu

(b)unrhyw gamau Rhan III.

(3) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, darperir yr indemniad, ac unrhyw yswiriant a sicrheir, ar y telerau yn achos camau troseddol, os collfernir yr aelod neu'r swyddog dan

sylw o dramgwydd troseddol ac ni wrthdroir y gollfarn honno o ganlyniad i unrhyw apêl, rhaid i'r aelod hwnnw neu i'r swyddog hwnnw ad-dalu i'r awdurdod neu i'r yswiriwr (yn ôl y digwydd) am unrhyw symiau a werir gan yr awdurdod perthnasol neu gan yr yswiriwr mewn perthynas â'r camau hynny yn unol â'r indemniad neu'r yswiriant.

(4) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, darperir yr indemniad a sicrheir unrhyw yswiriant, ar y telerau yn achos camau Rhan III, lle—

(a)dyfernir, yn y camau hynny, bod yr aelod dan sylw wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad ac ni wrthdroir y dyfarniad hwnnw o ganlyniad i unrhyw apêl, neu

(b)mae'r aelod yn addef ei fod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad, ac

(c)os cymerwyd mesurau disgyblu yn erbyn yr aelod hwnnwo ganlyniad i fethiant â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad,

rhaid i'r aelod hwnnw ad-dalu i'r awdurdod neu i'r yswiriwr (yn ôl y digwydd) unrhyw symiau a werir gan yr awdurdod perthnasol neu gan yr yswiriwr mewn perthynas â'r camau hynny yn unol â'r indemniad neu'r yswiriant.

(5) Pan fo'r paragraff hwn yn gymwys, darperir yr indemniad, a sicrheir unrhyw yswiriant, ar y telerau, yn achos camau Rhan III, lle—

(a)dyfernir yn y camau hynny bod yr aelod dan sylw wedi methu â chydmffurfio â'r Cod Ymddygiad ac os na wrthdroir y dyfarniad hwnnw o ganlyniad i unrhyw apêl; neu

(b)mae'r aelod yn addef ei fod wedi methu â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad; ac

(c)mae'r aelod o dan sylw wedi'i geryddu neu ni chymerwyd mesurau disgyblu yn erbyn yr aelod hwnnw o ganlyniad i'w fethiant â chydymffurfio â'r Cod Ymddygiad;

caiff Pwyllgor Safonau awdurdod perthnasol yr aelod benderfynu bod rhaid i'r aelod ad-adlu i'r awdurdod neu i'r yswiriwr unrhyw symiau a werir gan yr awdurdod perthnasol neu gan yr yswiriwr mewn perthynas â'r camau hynny yn unol â'r indemniad neu'r yswiriant.

(6) Pan fo aelod neu swyddog dan rwymedigaeth i ad-dalu i awdurdod perthnasol neu i yswiriwr yn unol â'r telerau a grybwyllir ym mharagraff (3), (4) a (5) uchod, bydd y symiau hynny yn adenilladwy gan yr awdurdod perthnasol neu gan yr yswiriwr (yn ôl y digwydd) fel dyled sifil.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998([1]).

*D. Elis-Thomas*

Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

7 Chwefror 2006

[yn disodli 5.3.8 o’r protocol ar gyfer perthynas aelod/swyddog]

**Protocol Mynediad i Wybodaeth gan Aelod**

*Darparu gwybodaeth*

1. Fe all pob Cynghorydd archwilio a chymryd copïau o’r adroddiadau, cofnodion a phapurau cefndirol sy’n ymwneud â rhan gyhoeddus unrhyw raglen o gyfarfodydd o’r Cyngor, ei bwyllgorau a’r Pwyllgor Gwaith.

2. Mae gan Gynghorwyr hawl i wybodaeth nad yw’n gyhoeddus (yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â’r rhan honno o gyfarfod o’r Cyngor, ei bwyllgorau a’r Pwyllgor Gwaith a eithriwyd o’i gyhoeddi) os oes gan y Cynghorwyr hynny angen rhesymol i wybod y wybodaeth honno er mwyn cyflawni eu dyletswyddau fel Cynghorydd.

3. Fe all pob Cynghorydd ofyn i unrhyw Adran o’r Cyngor ddarparu iddynt unrhyw wybodaeth, eglurhad a chyngor ynglŷn â swyddogaethau’r Adran honno fel sydd yn rhesymol angenrheidiol i’w helpu i wneud eu gwaith. Mewn geiriau eraill, fe ddylai Cynghorwyr allu dangos eu hangen i wybod yr wybodaeth. Fe ddylai Cynghorwyr yn arferol ofyn i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol neu uwch swyddog arall yn yr Adran berthnasol am wybodaeth.

4. Bydd angen i Gynghorydd wybod peth gwybodaeth sydd yn angenrheidiol iddo/iddi allu gwneud ei dd(d)yletswyddau’n iawn. Ni all y Cynghorydd hawlio angen i gael gwybodaeth nad yw’n ymwneud â busnes presennol neu ddiweddar y Cyngor. Nid oes gan y Cynghorydd hawl awtomatig i hawlio mynediad i wybodaeth lle na ellir dangos unrhyw angen i wybod. Nid yw’r gyfraith yn rhoi ‘rhwydd hynt’ i Gynghorydd fynd trwy ddogfennau’r Cyngor.

5. Bydd Cynghorydd sydd yn aelod o bwyllgor arbennig â hawl yn arferol i wybod am wybodaeth sy’n ymwneud â swyddogaethau’r pwyllgor hwnnw.

6. Fe all Cynghorydd nad yw’n aelod o bwyllgor arbennig gael mynediad i wybodaeth sy’n ymwneud â busnes y pwyllgor hwnnw cyn belled a’i fod ef/hi yn gallu dangos angen i wybod yr wybodaeth honno. Lle bo Cynghorydd yn ceisio cael gwybodaeth gyfrinachol neu bersonol sy’n perthyn i bobl eraill, rhaid iddo ef/hi ofyn i’r Cyfarwyddwr Corfforaethol neu i uwch swyddog yr Adran berthnasol o’r Cyngor yn ysgrifenedig, gan roi rhesymau am y cais. Y Swyddog Gwybodaeth Gorfforaethol fydd yn penderfynu a ddylid datgelu’r wybodaeth os oes anghydfod.

7. Yn unol â pharagraff 5 o’r Côd Ymarfer i Aelodau, ni chaniateir i Gynghorwyr gyhoeddi gwybodaeth sydd yn gyfrinachol neu a eithriwyd rhag ei chyhoeddi heb ganiatâd y Swyddog Monitro. Ni chaniateir i Gynghorwyr ddatgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol i unrhyw un ar wahân i Gynghorydd neu swyddog sydd â’r hawl i’w gwybod.

8. Pan yn delio gyda gwybodaeth bersonol, rhaid i’r Cynghorydd sicrhau nad yw ef/hi yn torri Deddf Diogelu Data 1988.

*Ymweliadau*

9. Fe all unrhyw Gynghorydd wneud ymweliad unigol i unrhyw Adran o'r Cyngor, depo, cyfleuster neu unrhyw le y mae'r Cyngor yn gwneud ei waith os :-

   (a) Y bydd gan y Cynghorydd angen rhesymol i wybod am y lle hwnnw er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau; a

   (b) Bod y Cynghorydd wedi rhoddi rhybudd rhesymol ymlaen llaw i'r Cyfarwyddwr Corfforaethol perthnasol (oni bai iddo gael ei ganiatáu yn wahanol gyda'r Cyfarwyddwr hwnnw); ac

   (c) O safbwynt sefydliadau Gwasanaethau Cymdeithasol, bod y Cynghorydd wedi derbyn gwiriad lefel uwch gan y Swyddfa Cofnodiadau Troseddol yn unol â pholisi CRB y Cyngor.

   Fodd bynnag, nid yw'r hawl i fynediad yn cael ei hymestyn yn awtomatig i ysgolion.

10. Bydd y Rheolwr-gyfarwyddwr yn dweud wrth Gynghorwyr mewn Ward berthnasol ynglŷn ag ymweliadau cyhoeddus neu swyddogol a gynhelir neu a drefnir gan y Cyngor i lefydd neu at bobl o fewn y Ward honno. Ymweliad cyhoeddus neu swyddogol yw un all olygu cyhoeddusrwydd allanol ac/neu gyswllt gyda chynrychiolwyr o gyrff y tu allan i'r Cyngor.

*Materion Ward*

11. Rhaid i Gyfarwyddwr Corfforaethol unrhyw Adran sydd yn ystyried cais fyddai'n effeithio ar Ward arbennig neu ar grŵp o breswylwyr yn y Ward honno ddweud wrth Gynghorwyr y Ward honno am y cais ar y cyfle cyntaf. Bydd y Cyfarwyddwr Corfforaethol yn nodi a yw'r wybodaeth honno yn gyfrinachol ac i ba raddau y mae'n gyfrinachol. Ni ddylai Cynghorwyr Ward ddatgelu gwybodaeth gyfrinachol ar gynigion yn eu Ward. Bydd unrhyw fethiant i barchu cyfrinachedd gwybodaeth o'r fath yn cael ei gyfeirio at Arweinydd Grŵp y Cynghorydd neu (yn achos Cynghorydd nad yw mewn Grŵp) i Gadeirydd y Cyngor, ac fe all hefyd fod yn torri'r Côd Ymarfer i Aelodau a Deddf Diogelu Data 1988.

12. Rhaid i Gynghorydd sy'n ceisio cael gwybodaeth sy'n ymwneud â mater neu le mewn Ward lle nad ydyw'n Gynghorydd ac yntau'n bwriadu siarad yn gyhoeddus ar y mater, ddweud wrth Gynghorwr/wyr y Ward honno ymlaen llaw.

13. Pe bai Cynghorydd yn ceisio cael gwybodaeth ynglŷn â mater neu le mewn Ward lle nad ydyw yn Gynghorydd, bydd y Swyddog y gwnaed y cais am wybodaeth iddo yn dweud wrth Gynghorydd/wyr y Ward honno ar y cyfle cyntaf.

[yn disodli 5.3.6 o'r protocol ar gyfer perthynas aelod/swyddog]

*Gwaith Briffio*

14. Fe all gwybodaeth a roddir gan swyddogion i Gynghorwyr gael ei darparu fel brîff. Fe ellir darparu briff i Gynghorwyr unigol, aelodau pwyllgor arbennig neu'r Pwyllgor Gwaith, Arweinydd y Cyngor, Arweinyddion Grŵp neu (fel sydd wedi'i osod allan isod) un neu fwy o gyfarfodydd Grŵp.

15. Ni chaiff swyddogion ond darparu gwybodaeth a chyngor mewn cyfarfodydd briffio sy'n ymwneud â swyddogaethau a busnes y Cyngor, ac nid amgylchiadau unigol Cynghorwyr neu faterion sydd ond yn ymwneud â Grŵp.

16. Pan roddir briff, ni ellir gwneud penderfyniadau ar ran y Cyngor, er y gall ddarparu gwybodaeth am benderfyniadau sydd wedi'u cymryd a rhoi gwybodaeth i'r rhai sydd yn mynd i wneud penderfyniad.

17. Fe ddylid trefnu cyfarfodydd briffio a chyfarfodydd eraill gyda'r Cynghorydd, gan roi digon o rybudd am y busnes sydd i'w drafod. Ni ddylid rhoi briff ond trwy neu gyda chaniatâd uwch swyddog.

18. Os bydd swyddog yn rhoi briff i ddeilydd portffolio ar bwnc o natur gorfforaethol, yna fe ddylai aelodau eraill y Pwyllgor Gwaith sydd yn chwilio am yr un wybodaeth ei chael gan y deilydd portffolio ac nid gan y swyddog.

19. Os bydd swyddog yn rhoi briff i Arweinydd Grŵp ar bwnc o natur gorfforaethol, yna fe ddylai aelodau eraill o'r un Grŵp sy'n ceisio'r un wybodaeth ei derbyn gan yr Arweinydd Grŵp ac nid gan y swyddog.

20. Ni fydd swyddogion ond yn mynychu cyfarfodydd Grŵp i roi briff gyda chaniatâd y Rheolwr-gyfarwyddwr ac os yw'r cyfarfod yn un ffurfiol. Ni fydd swyddogion yn mynychu cyfarfod Grŵp tra bod materion o fusnes y Grŵp yn cael eu trafod. Bydd swyddogion yn ceisio delio'n ddiduedd gyda phob Cynghorydd ond mae'n anorfod y bydd angen iddynt wario mwy o amser ac ymdrech ar geisiadau gan y Grwpiau) mwyafrifol. Ni ddylai aelodau'r Grwpiau lleiafrifol gamddehongli hyn fel ffafriaeth gan swyddogion a'u gwneud yn destun ymosodiad cyhoeddus neu bersonol am y rheswm hwn.

21. Rhaid i Gynghorwyr sy'n mynychu cyfarfod briffio beidio â datgelu gwybodaeth a roddir yn gyfrinachol mewn cyfarfod briffio.

22. Rhaid i swyddogion sy'n mynychu cyfarfod briffio beidio datgelu i Grŵp arall wybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol iddynt mewn cyfarfod briffio gan un Grŵp. Fodd bynnag, fe fydd swyddogion yn gallu datgelu gwybodaeth o'r fath i swyddogion eraill lle bo hynny'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni eu swyddogaethau.

23. Rhaid i swyddogion sy'n mynychu cyfarfod briffio gyda Chynghorwyr a phobl nad ydynt yn aelodau o'r Cyngor fod yn hynod o wyliadwrus i sicrhau na fydd gwybodaeth gyfrinachol yn cael ei datgelu y tu allan i'r Cyngor.

24. Fe all cyfarfodydd briffio ddigwydd naill ai wyneb yn wyneb neu ar y ffôn neu ar y rhyngrwyd. Lle ceir cyfarfod nad yw yn un wyneb yn wyneb, rhaid i'r swyddogion sicrhau bod pawb sy'n cymryd rhan yn gwybod pwy yw'r naill a'r llall.

*Cyfarfodydd briffio'r Rheolwr-gyfarwyddwr i Arweinyddion Grwpiau*

25. Bydd y Rheolwr-gyfarwyddwr yn galw ac yn cadeirio cyfarfodydd briffio rheolaidd gydag Arweinwyr yr holl Grwpiau yn y Cyngor.

26. Bydd y Rheolwr-gyfarwyddwr yn darparu rhaglen i'r Arweinwyr Grwp o leiaf 3 diwrnod cyn y cyfarfod nesaf.

27. Fe all unrhyw Arweinydd Grwp awgrymu eitem ar gyfer rhaglen i’r Rheolwr-gyfarwyddwr, ond y Rheolwr-gyfarwyddwr ei hun fydd yn penderfynu ar gynnwys y rhaglen.

28. Os nad yw Arweinydd y Cyngor yn Arweinydd Grwp, yna fe all ef/hi fynychu.

29. *Os nad yw’r Arweinydd Cysgodol yn Arweinydd Grwp, yna fe all ef/hi fynychu.*

**HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU CYNCHORAU TREF/CYMUNED**
**TRAINING FOR TOWN/COMMUNITY COUNCIL MEMBERS**


**10/05/2011**

## 1. Lleoliad / Venue

**1.1 Beth oedd eich barn am y lleoliad? Oedd y lleoliad yn addas a chyfforddus?**
**1.1 What did you think of the Venue? Was the Venue suitable and comfortable?**

*Beth oedd eich barn amdani? (Sgôr 1 isel I 6 uchel)*
*How did you rate it? (Score 1 low to 6 high)*

| | |
|---|---|
| **6** | 17 |
| **5** | 7 |
| **4** | 4 |
| **3** | 0 |
| **2** | 0 |
| **1** | 0 |
| **Dim Sgôr / No Score** | 2 |
| **Total** | **30** |





**Sylwadau / Comments**
Excellent
Could do with air conditioning on
Braidd yn boeth
Good central position
Very comfortable
Braidd yn boeth
Comfortable and central location. Difficult to see 'notepad'.

## 2. Cynnwys / Content

**2.1 Oedd y sesiwn yn hawdd i'w dilyn?**
**2.1 Was the session easy to follow?**

*Beth oedd eich barn amdani? (Sgôr 1 isel I 6 uchel)*
*How did you rate it? (Score 1 low to 6 high)*

| | |
|---|---|
| **6** | 15 |
| **5** | 12 |
| **4** | 1 |
| **3** | 0 |
| **2** | 0 |
| **1** | 0 |
| **Dim Sgôr / No Score** | 2 |
| **Total** | **30** |





**Sylwadau / Comments**
Presentation & training
Atebion i'r cwestiynau yn hir a chymleth ar adegau
Very well presented
Oedd o gymorth mawr i mi sy'n Gynghorydd Bro newydd!

**2.2 Oedd cynnwys y sesiwn wedi'I hanelu at y lefel gywir i chi?**
**2.2 Was the content of the session aimed at the level for you?**

*Beth oedd eich barn amdani? (Sgôr 1 isel I 6 uchel)*
*How did you rate it? (Score 1 low to 6 high)*

| | |
|---|---|
| **6** | 15 |
| **5** | 10 |
| **4** | 1 |
| **3** | 2 |
| **2** | 0 |
| **1** | 0 |
| **Dim Sgôr / No Score** | 2 |
| **Total** | **30** |





**Sylwadau / Comments**
A'r wahan I'r "iaith sywddogol"
Still learning
I am new, but it was very helpful & understandable

## 3. Ymarferiadau Gweithdy / Workshop Excercises

**3.1 Oedd yr ymarferiadau ymarferol yn ddefnyddiol i chi?**
**3.1 Did you find the practical exercises useful?**

*Beth oedd eich barn amdani? (Sgôr 1 isel I 6 uchel)*
*How did you rate it? (Score 1 low to 6 high)*

| | |
|---|---|
| **6** | 16 |
| **5** | 11 |
| **4** | 1 |
| **3** | 0 |
| **2** | 0 |
| **1** | 0 |
| **Dim Sgôr / No Score** | 2 |
| **Total** | 30 |





**Sylwadau / Comments**
Diddorol fel Clerc - er fod cwrs wedi anelu fwy at Gynghorwyr
Very worthwhile
Helped a lot
Makes everything clearer
Did not totally agree with every answer
The sessions were well instructed and helped to illustrate the principles.
Although recommende that excercises are reduced in number to allow more interaction with audience to increase / maintain interest level

## 4. Cyflwyniad / Delivery

**4.1 Cynigiwch sylw ar unrhyw agwedd o'r cyflwyno allai gynorthwy'r hyfforddydd wrth iddynt gyflwyno cyriau i'r dyfodol?**
**4.1 Please comment on any aspect of the delivery that you feel may assist the trainer for their future delivery of courses?**

*Beth oedd eich barn amdani? (Sgôr 1 isel I 6 uchel)*
*How did you rate it? (Score 1 low to 6 high)*

| | |
|---|---|
| **6** | 12 |
| **5** | 4 |
| **4** | 1 |
| **3** | 1 |
| **2** | 0 |
| **1** | 0 |
| **Dim Sgôr / No Score** | 12 |
| **Total** | 30 |





**Sylwadau / Comments**
Dangos pa mor anodd oedd penderfynu rhai atebion yn "ddaleusl"
Ond hoffwn os y byddai yn Gymraeg a gyda offer cyfieithu (Sori)
Petai'r sesiwn yn Gymraeg fe fyddi yn well. Gan fod perianau gyfieithu ar gael yn y safle.
Da iawn
Cyflwyniad dealldwy iawn
Very interesting & enjoyable evening
Always amusing as well as informative
Y cyflwyniad yn glir ac eglur iawn. Sesiwn ymarferol o gymorth
Everything was well explained
Needs to keep to time - 21/2 hrs stated at beginning of session.
Delivery writing on flipchard was too small
Most people attended voluntary / no evening meal etc

## 5. Cam nesaf / Next step

**5.1 Fyddech chi'n mynd I ragor o hyfforddiant?**
**5.1 Would you attend further training?**

*Beth oedd eich barn amdani? (Sgôr 1 isel I 6 uchel)*
*How did you rate it? (Score 1 low to 6 high)*

| | |
|---|---|
| **6** | 8 |
| **5** | 3 |
| **4** | 1 |
| **3** | 0 |
| **2** | 0 |
| **1** | 0 |
| **Byddwn / Yes** | 16 |
| **Dim Sgôr / No Score** | 2 |
| **Total** | 30 |




**Sylwadau / Comments**
Cyflwyniad clir - eglurhad am yr achosion braidd yn hir wyntog (deall fod angen egluro ar sail y cod ei hun)
Iawn ond plis mae 3 awr yn rhy hir - cychwyn yn gynt!
Providing time schedule is agreed at the beginning and kept to!

**HYFFORDDIANT AR GYFER AELODAU CYNCHORAU TREF/CYMUNE**
**TRAINING FOR TOWN/COMMUNITY COUNCIL MEMBERS**

**10/05/2011**

## Yn Bresenol / Present

| **Enw / Name** | **Cynrychioli / Representing** |
|---|---|
| Einion Williams | Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog |
| Edward Thomas | Cyngor Cymuned Llanfihangelesceifiog |
| Anna Jones | Cyngor Cymuned Tref Alaw |
| John Griffith | Cyngor Cymuned Tref Alaw |
| Gareth Parry | Cyngor Cymuned Tref Alaw |
| Gwynn Jones | Cyngor Cymuned Amlwch |
| Trevor Ashenden | Beaumaris Town Council |
| Jason Zalot | Beaumaris Town Council |
| Gwenda Pritchard | Cyngor Cymuned Rhosybol |
| Rhys Owen | Cyngor Cymuned Rhosybol |
| Eluned Jones | Cyngor Cymuned Mechell |
| Edna Jones | Cyngor Cymuned Trewalchmai |
| Margaret Price | Cyngor Cymuned Trewalchmai |
| Jacqueline Jones | Cyngor Cymuned Menai Bridge |
| Linda Fraser-Williams | Cyngor Cymuned Porthaethwy |
| Margaret Thomas | Cyngor Cymuned Llangefni |
| Griff Pritchard | Cyngor Cymuned Llanfair ME |
| W. Myfyr Roberts | Cyngor Cymuned Rhoscolyn |
| John Roberts | Cyngor Bro Llanfair PG |
| Bethan Jones | Cyngor Bro Llanfair PG |
| Enid Mummery | Cyngor Bro Rhosyr |
| Michael Dolan | Cyngor Bro Trearddur |
| Jack Abbott | Cyngor Bro Trearddur |
| Bronwen Pritchard | Cyngor Cymuned Pentraeth |
| Ron Hussey | Cyngor Cymuned Aberffraw |
| Irene Dennis | Cyngor Cymuned Pentraeth |
| B Rowlands | Cyngor Cymined Llanfachraeth |
| Jackie Lewis | Cyngor Cymined Llanfachraeth |
| R Adrian Owen | Cyngor Cymined Llanfachraeth |

***Nifer yn bresennol / Total number of attendees*** ***29***

ED

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**FFURFLEN I DDATGAN DIDDORDEB A CHOFRESTRU DIDDORDEB PERSONOL**

**COD YMDDYGIAD AELODAU**

| |
|---|
| Enw'r Aelod: |
| Enw'r Cyfarfod: |
| Dyddiad: |
| Eitem ar y Rhaglen (rhif a theitl): |

**DATGANAF DRWY HYN** bod gennyf ddiddordeb personol dan Gôd Ymddygiad y Cyngor a fabwysiadwyd dan Adran 51 Deddf Llywodraeth Leol 2000.

| |
|---|
| Manylion y Diddordeb Personol yw: |
| Manylion busnes y Cyngor y mae'r Diddordeb Personol yn cyfeirio atynt yw: |
| *Diddordeb Rhagfarnol yw Diddordeb y gallai aelod o'r cyhoedd, un sydd gyda gwybodaeth am y ffeithiau perthnasol, dybio yn rhesymol ei fod yn ddigon sylweddol fel y bydd yn debygol o ragfarnu eich barn ynghylch Diddordeb y Cyhoedd.*<br>Credaf bod hwn yn Ddiddordeb Rhagfarnol oherwydd - |

Rhaid i chi dicio un o'r blychau isod-

- ☐ Nid yw'r Diddordeb yn Ddiddordeb Rhagfarnol ac felly bwriadaf gymryd rhan ym musnes y Cyngor.
- ☐ Mae'r Diddordeb yn Rhagfarnol ac felly bwriadaf ymneilltuo a gadael y cyfarfod.
- ☐ Mae'r Diddordeb yn Rhagfarnol ond rwyf wedi derbyn y caniatâd arbennig y Pwyllgor Safonau.

Llofnodwyd ……………………………………….. Dyddiad ……………………………

**MAE ANGEN CYFLWYNO'R FFURFLEN HON I AELOD O STAFF GWASANAETHAU PWYLLGORAU SYDD YN BRESENNOL YN Y CYFARFOD**